



DARLLENWCH
Luc 2: 8-20



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Astudiaeth 3 Geni'r Gwardwr – Ymweliad y Bugeiliaid



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Ioan 5: 24 2 Corinthiaid 6: 2

Mae gennym achos i fod yn llawen bob tro y mae babi'n cael ei eni'n ddiogel. Mae'r newyddion yn lledaenu fel tân gwyllt, mae pobl yn galw draw i ddymino'n dda i'r teulu a rhai ohonyn nhw'n dod ag anrheg i'r babi.

C Yn ôl y Darlleniad o'r Beibl, pwy oedd y rhai cyntaf i alw i weld y Baban Iesu?

2

C Sut cawson nhw wybod Ei fod wedi cael Ei eni?

1

C Beth oedden nhw'n ei wneud pan glywsom nhw Ei fod wedi Ei eni?

C Darllenwch yn ofalus eiriau'r angel a chwilio am y TRI THEITL a ddefnyddiodd ar gyfer Iesu. Ysgrifennwch nhw isod.

1)	2)	3)
----	----	----

1

C Dyma yw YSTYR y tri theitl ond maen nhw yn y drefn ANGHYWIR.

Rhowch rif y teitl sy'n cyfateb i'r ystyr yn y blwch.

Prif Lywodraethwr.

Un sy'n Achub pobl rhag eu pechodau.

Un sydd wedi'i Eneinio.

1

C Rhoddodd yr angel DDAU 'gliw' i'r bugeiliaid i'w helpu i ddod o hyd i'r Baban.

Beth oedden nhw?

2

Wrth i'r angel orffen ei neges, daeth tyrfa o'r llu nefol i ymuno ag ef.

C Ysgrifennwch beth oedd ganddynt i'w ddweud.

2

Mae TAIR gwers bwysig i ni, heddiw, eu dysgu yn hanes ymweliad y bugeiliaid:-

1. Pwysigrwydd CLYWED am y Gwaredwr.

Tasen nhw ddim wedi clywed amdano, fydden nhw ddim wedi dod i'w weld!
Mae hynny'n bwysig i ni hefyd.

- C** Darllenwch beth sydd gan Rhufeiniaid 10: 17 i'w ddweud am glywed Gair Duw (h.y. y Beibl). Ysgrifennwch yr adnod.

2

2. Pwysigrwydd TALU SYLW i'r hyn yr ydym yn ei glywed.

Fe wnaeth y bugeiliaid weithredu ar yr hyn a glywson nhw.

- C** Ysgrifennwch o Luc 2: 15 beth a ddywedon nhw wrth ei gilydd ar ôl i'r angylion fynd.

Mae angen i ni, hefyd, dalu sylw i'r hyn y mae Duw'n ei ddweud wrthym. Awn ni byth i'r Nefoedd os clywn ni heb dalu sylw!

- C** Gorffennwch y cwestiwn hwn o Hebreaid 2: 3 "Pa fodd y dihangwn ni . . ."

3. Pwysigrwydd BRYCIO i wneud fel y mae Duw yn ei ddweud.

- C** Pa adnod yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud na wnaeth y bugeiliaid wastraffu amser cyn mynd i Fethlehem?

Adnod

Mae llawer o resymau pam na ddylem ni wastraffu amser cyn ymddiried yn yr Arglwydd Iesu. Rydyn ni'n gwybod pa mor fregus yw ein bywydau ar y ddaear ac rydym yn gwybod y bydd yr Arglwydd Iesu'n dod eto cyn hir. Gadewch i ni beidio â gwastraffu'r cyfle i ddod at Iesu a'i wneud Ef yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni.

- C** Ysgrifennwch beth a ddywedodd yr Arglwydd Iesu yn Luc 13: 24.

